Safon Uwch Drama ac Astudiaethau Theatr (Amser Llawn)

Mae'r cwrs hynod ymarferol hwn yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr weithio naill ai fel perfformwyr neu ddylunwyr setiau gan gyfuno gweithgareddau archwilio dramâu, creu theatr, perfformio dramâu, dadansoddi theatr a gwerthuso'r holl elfennau hyn yn feirniadol. Mae'r cwrs yn eich galluogi i astudio isafswm o ddau destun perfformio cyflawn a thri detholiad allweddol sy'n cwmpasu ystod o gyfnodau a chyd-destunau. Byddwch hefyd yn cyfranogi mewn isafswm o ddau berfformiad ac yn ystyried dulliau gweithio ymarferydd theatr. Mae adolygiadau o theatr fyw yn rhan o'r elfen asesu nad yw ar ffurf arholiad a byddant yn cael eu defnyddio i asesu gwaith ymarferol.

Rydym wrth ein bodd i gynnig cyfle i fyfyrwyr gyflawni eu Gwobrau Dug Caeredin gyda Chwmni Theatr Grass Roots. Ar yr un pryd â datblygu sgiliau a ffitrwydd corfforol, bydd y wobr yn cynnig profiad gwaith perthnasol a'r cyfle i fyfyrwyr gymryd rhan mewn alldaith anturus.

Gwneud cais am Safon Uwch? Cliciwch 'Gwneud Cais Nawr' ar unrhyw UN o'r pynciau y mae gennych ddiddordeb ynddynt, llenwch y ffurflen gais ar-lein ac wedyn cadwch le ar gyfer Noson Wybodaeth i gyfarfod â'r tiwtoriaid a thrafod y pynciau o'ch dewis. Bydd modd i chi wedyn ddewis eich pynciau ar y noson!

Gofynion Mynediad

6 TGAU â Gradd C neu uwch gan gynnwys Cymraeg/Saesneg, mae TGAU â Gradd C neu uwch mewn Drama yn ddymunol, ond nid yn hanfodol ym mhob achos.

Rhagolygon Gyrfa

Actio, Astudiaethau Theatr a Chelfyddydau Perfformiadol mewn Addysg Uwch. Gellir ei ddefnyddio fel rhan o'ch cwrs i ehangu eich astudiaethau a gall arwain at yrfa yn niwydiannau'r celfyddydau perfformiadol.

DULL ASTUDIO
FT

LLEOLIAD
Coleg Castell-nedd - 01639 648000

GRŴP COLEGAU
NPTC
GROUP OF COLLEGES

HYD Y CWRS
2 years

Coleg Afan **01639 648200** Afan College
Coleg Bannau Brycheiniog **01686 614400** Brecon Beacons College
Coleg Castell-nedd **01639 648000** Neath College
Coleg Y Drenewydd **01686 614200** Newtown College

www.nptcgroup.ac.uk